



Older People's Commissioner for Wales  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# DATGANIAD I'R WASG

Embargo: 00:01 Dydd Llun 10 Tachwedd

Cyswllt: Kelly Davies 029 2044 5055 / 07974 105089

---

## Mae gan ormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru ansawdd bywyd annerbyniol yn ôl y Comisiynydd

Mae gan ormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ansawdd bywyd annerbyniol, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad – 'Lle i'w Alw'n Gartref?' – ar ôl Adolygiad y Comisiynydd ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru, yr Adolygiad mwyaf o'i fath erioed i gael ei gyflawni.

Mae'r Adolygiad wedi darganfod nad yw nifer o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, sydd fel arfer ymhlith y garfan mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw mwyach, maent yn colli'r gallu i ddewis a rheoli eu bywydau, caiff eu hanghenion emosïynol eu hesgeuluso ac nid yw eu hawliau sylfaenol yn cael eu hamddiffyn.

Mae'r Adolygiad hefyd yn dangos nad yw'r gofal mewn sawl cartref gofal yng Nghymru yn cwrdd ag anghenion unigolion, a'u bod yn canolbwyntio yn hytrach ar agwedd bod un math o ofal yn addas i bawb, a all gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl a gofal nyrsio.

Dyweddodd Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

“Fy Adolygiad Cartrefi Gofal yw'r Adolygiad mwyaf o'i fath erioed i gael ei gyflawni yng Nghymru, ac mae lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd yn ganolog iddo.”

“Er bod fy Adolygiad wedi canfod enghreifftiau gwych o ofal ble mae'r unigolyn wirioneddol yn ganolog, sy'n galluogi ac yn grymuso gofal sy'n rhoi'r canlyniadau gorau i bobl hŷn, mae amrywiaeth sylweddol ar draws Cymru sy'n golygu bod gan ormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ansawdd bywyd annerbyniol.

“Mae'r adroddiad ar fy Adolygiad felly am i'r holl gyrrff priodol, o ganlyniad i ofynion gweithredu fy Adolygiad, gyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn y cartrefi gofal a sicrhau bod ansawdd bywyd yn ganolog i ddarpariaeth gofal preswyl a gofal nyrsio ledled Cymru.”

Roedd yr Adolygiad yn edrych ar nifer o ffactorau a all gael effaith ar ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, megis cyfranogi cymdeithasol, awyrgylch y cartref gofal, mynediad i ofal iechyd, deiet, gallu a hyfforddiant staff, a chomisiynu gwasanaeth, rheoli ac arolygu.

Er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer yr Adolygiad ymgwymerodd y Comisiynydd ag ymweliadau dirybudd â 100 o gartrefi gofal ar draws Cymru gyda thîm o Adroddwyr Gofal Cymdeithasol, arbenigwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac arbenigwyr o gefndiroedd trydydd parti er mwyn arsylwi ar realiti bywyd bob dydd mewn cartref gofal ac i glywed gan bobl hŷn yn uniongyrchol am ansawdd eu bywydau a'u gofal, ac am eu profiadau o fyw mewn gofal preswyl a gofal nyrsio.

Yn ychwanegol, casglodd y Comisiynydd dros 2,000 o ymatebion i holiaduron gan breswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd a chasglodd dystiolaeth llafar ac ysgrifenedig helaeth gan ystod eang o gyrrff cyhoeddus, darparwyr gofal ac arbenigwyr mewn darpariaeth gofal.

Ymgwymerwyd â'r Adolygiad gan ddefnyddio pwerau statudol y Comisiynydd, sy'n golygu bod gofyn i'r cyrrff sy'n ddarostyngedig i'r Adolygiad gynhyrchu cynlluniau manwl o fewn tri mis, yn amlinellu sut y byddant yn cymryd y camau sy'n ofynnol gan y Comisiynydd. Yn dilyn hyn, bydd y Comisiynydd yn cychwyn rhaglen o waith dilynol er mwyn monitro a yw'r cynlluniau yn cael eu gweithredu a sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Ychwanegodd y Comisiynydd:

“Mae’n anodd darllen canlyniadau fy Adolygiad, ond wrth beidio â chydabod y newidiadau angenrheidiol, rydym yn tanseilio’r gofal da sydd ar gael ac yn rhwystro ein hunain rhag darparu’r gofal gorau ar gyfer yr holl bobl hŷn.

“Mae’n hanfodol bod y gofynion gweithredu yn cael eu hateb i sicrhau bod ansawdd bywyd yn ganolog i’r system cartrefi gofal, ar bob lefel o gomisiynu i ddarparu gofal ar y llinell flaen.

“Rwyf yn deall na fydd hi’n dasg hawdd o ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol, ond mae fy Adolygiad yn amlinellu’n glir beth fydd effaith methu â llwyddo i’w chyflawni ar y bobl sy’n byw mewn cartrefi gofal, a dyna’r pris i’w dalu pan geir methiannau, sydd yn bris rhy uchel i ormod o bobl.”

## **DIWEDD**

Ar gyfer yr holl ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â Kelly Davies ar 029 2044 5055 / 07974 105089 neu anfonwch e-bost at [kelly.davies@olderpeoplewales.com](mailto:kelly.davies@olderpeoplewales.com)